

Patrwm cyflwyno Yn flynyddol o fis Mai i fis Hydref

Disgrifiad o'r cwrs

Mae'r nifer mawr iawn o systemau digidol sy'n effeithio ar lawer o agweddau ar ein bywydau beunyddiol, wedi dod ag amrywiaeth o heriau gyda nhw, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â sicrhau diogelwch y systemau hyn. Mae sicrhau'r systemau uchod yn gofyn am weithwyr proffesiynol seiberddiogelwch technegol cymwys, sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol i ddadansoddi'r bygythiadau yn erbyn diogelwch y systemau hyn, gwerthuso'r atebion addas sy'n lleihau'r risg y bydd y bygythiadau hyn yn cael eu gwireddu, a gweithredu'r atebion hyn a monitro eu heffeithlonrwydd. Ym maes ehangach seiberddiogelwch, bydd y gweithgareddau hyn yn dod o fewn maes diogelwch systemau, sef canolbwynt y modiwl hwn. Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau Diogelwch Systemau M817 yn gallu gwneud y canlynol:

- Dadansoddi bygythiadau seiber ar gyfer systemau digidol gwahanol, gan ddefnyddio dulliau systematig (e.e. STRIDE);
- Gwerthuso rôl dulliau dilysu, awdurdodi ac archwilio, technegau cryptograffeg, dulliau ar gyfer diogelu systemau gwasgaredig, a thechnegau diogelu systemau gweithredu a thechnolegau rhithwirio.
- Rhoi dulliau diogelwch priodol ar waith er mwyn lliniaru'r bygythiadau a berir mewn cyd-destunau systemau gwahanol.
- Asesu pa mor effeithiol yw atebion diogelwch gwahanol.

Caiff y modiwl ei drefnu'n bump bloc, gan gwmpasu cyflwyniad i ddiogelwch systemau; cryptograffeg; dilysu, awdurdodi ac atebolrwydd; systemau gweithredu a diogelwch rhithwirio, a diogelwch systemau gwasgaredig. Bydd prif elfen asesu'r modiwl yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu hastudiaeth achos eu hunain, yn ogystal â'u galluogi i gymhwyso eu dysgu i ddatrys problem sy'n bwysig i'w cyd-destun proffesiynol neu bersonol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â manyleb gyffredinol y person ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad o ddylunio a datblygu atebion diogelwch systemau, gan fanteisio ar wybodaeth am rywfaint o gyfuniad o dechnegau cryptograffeg, dilysu, awdurdodi ac atebolrwydd cymhwysol, systemau gweithredu, rhithwirio a diogelwch systemau gwasgaredig.
- dealltwriaeth o'r materion cymdeithasol, proffesiynol a thechnegol sylfaenol sy'n berthnasol i ddiogelwch systemau;
- y gallu i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth yn y pwnc hwn ac i osod y wybodaeth hon yng nghyd-destun ehangach seiberddiogelwch.
- gradd ôl-raddedig berthnasol neu brofiad cyfatebol.
- ymwybyddiaeth o Safonau a deddfwriaeth bresennol
- profiad o addysgu ar lefel ôl-raddedig

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu diogelwch systemau ar lefel ôl-raddedig



- ardystiadau'r diwydiant mewn seiberddiogelwch (e.e. CASP+, CISSP, CRTSA, ac ati)

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw'r fanyleb cyfrifiadur ofynnol ar gyfer y modiwl yn ddigon ar gyfer marcio aseiniadau'n electronig. Byddai'n well cael monitor mawr (17 modfedd, 256 lliw), ac efallai y bydd angen llawer mwy o ofod gwag ar eich disg na'r hyn a argymhellir ar gyfer myfyrwyr.

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	Aseiniad wedi'i Farcio gan Diwtor yn unig
Lefel y gofynion TGCh:	Gwe-ddwys
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safon:	20
Band cyflog:	4
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	6